

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

ParentPay

Diolch i bawb am ddychwelyd eich ffurflenni archebu ar gyfer y cardiau Nadolig eleni. Bydd cyfanswm eich archeb yn ymddangos ar eich cyfrif ParentPay yr wythnos hon. Cadwch lygad mâs amdano os gwelwch yn dda.

Carol yr Ŵyl – bl.5a6

Byddwn yn recordio a ffilmio ddydd Gwener yma (Tachwedd 24ain) ar gyfer yr eitem ar Prynawn Da S4C, a fydd yn cael ei ddarlledu ym mis Rhagfyr. I roi cyfle i chi baratoi mi fydd angen i'r plant wisgo yn aeafol ar gyfer y ffilmio (cot, het, sgarff a menig) Mae'r geiriau a'r garol ar Teams Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Byddwn yn ymarfer yn ystod yr wythnos hon. A wnewch chi gefnogi'ch plentyn i ddysgu'r geiriau yn dda erbyn dydd Gwener os gwelwch yn dda? Diolch.

Goleuo Coeden Nadolig Llanbadarn

Diolchwn i Gyngor Cymuned Llanbadarn Fawr am y gwahoddiad i oleuo'r goeden Nadolig ar sgwâr y pentref am 6:30yh nos Wener yma, sef y 24ain o Dachwedd. Mae croeso cynnes i bawb, a gwahoddiad arbennig i bawb o fl.5a6 i ganu fel rhan o gôr yr ysgol a pherfformio carolau ar y noson. Cyrhaeddwch erbyn 6:15yh os gwelwch yn dda.


Ffair Nadolig y G.Rh.A – 6-8yh Tachwedd 30ain

Edrychwn ymlaen at ddigwyddiad cynta'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon y tymor hwn sef y Ffair Nadolig. Bydd holl ddisgyblion [blynyddoedd 1 a 2](#) yn perfformio caneuon yn ystod y noson ynghyd â [band pres](#) Mr Hassan; ac yn ogystal â'r stondinau mi fydd lansiad llyfr go arbennig yn digwydd hefyd. Os ydych ar gael i gynorthwyo ar y noson a wnewch chi e-bostio crha.ysgol.gymraeg@googlemail.com os gwelwch yn dda.

Y Gymraeg Mae cyfres newydd Gymraeg wedi dechrau ar raglenni Stwnsh – TEKKERS!



Ychydig wythnosau yn ôl bu Tekkers yn cyfarfod gyda phlant yr Ysgol Gymraeg wrth ddechrau paratoi at y gyfres nesaf. Gobeithiwn y bydd disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y gyfres hon cyn hir. Ond am nawr, mwynhewch wyllo ysgolion eraill yn cystadlu am y cwpan Tekkers!
Wythnos 1 – Ysgol Cwmbran v Ysgol Y Wern



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol. Y dyddiad pwysicaf arno ar hyn bryd yw'r Cyngerdd Nadolig – Rhagfyr 13^{eg}.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21^{ain} o Ragfyr am 3:30yp.
Tymor y gwanwyn yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 9^{fed} o Ionawr 2024.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

20/11/2023

www.ysgolgymraeg.cymru

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

ParentPay

Thank you to everyone for returning your order forms for this year's Christmas cards. Your order total will appear on your ParentPay account this week. Please keep an eye out for it.

Carol yr Ŵyl - years 5 and 6

We will be recording and filming this Friday (November 24th) for the item on S4C's Prynawn Da, which will be broadcast in December. The children will need to dress in warm winter clothing for the filming (coat, hat, scarf, and gloves) The words and carol are on Year 5 and Year 6 Teams. We will practice during this week. Please support your child to learn the words well by Friday. Thank you.

Llanbadarn Fawr Christmas Tree Lighting

We thank Llanbadarn Fawr Community Council for the invitation to light the Christmas tree on the village square at 6:30pm this Friday evening, the 24th of November. Everyone is warmly welcome, and a special invitation to everyone from year 5 to 6 to be part of the school choir which will perform carols on the evening. Please arrive by 6:15pm


The P.T.A Christmas Fair – 6-8pm November 30th

We look forward to the PTA's first event this term, the Christmas Fair. All pupils in years 1 and 2 will perform songs during the evening, together with Mr Hassan's brass band; and in addition to the stalls there will also be a special book launch. If you are available to help on the evening, please email crha.ysgol.cymraeg@googlemail.com

The Welsh Language A new series in Welsh has started on Stwnsh programs - TEKKERS!



A few weeks ago Tekkers met with children the Ysgol Gymraeg when starting to prepare for the next series. We hope that the pupils of the school will take part in the this series before long. But for now, enjoy watching other schools competing for the Tekkers cup!
Week 1 – Ysgol Cwmbran v Ysgol Y Wern



Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website. The most important date currently is the Christmas Concert – December 13th.

Important dates for next half term

We will be closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.
Spring term will begin on Tuesday 9th January 2024.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,
Gareth L James
Acting Headteacher
20/11/2023

www.ysgolgymraeg.cymru